# Y BIGWN

CYF. 33 RHIF 6 HYDREF 2021 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

## Haf prysur a chyffrous i wirfoddolwyr Dinbych yn Blodeuo.



Yn barod ar gyfer y beirniadu



Y beirniadu



Ffilmio 'Garddio a Mwy' S4C



Helfa Wenyn Ganol Haf




Gwobr Aur Cymru yn ei Blodau




Tlws 'Tref Orau' yng Nghymru



Cystadleuaeth addurno ffenestri siopau

# LLONGYFARCHIADAU CYFARCHION



Llongyfarchiadau mawr i Gareth Rhys Jones a Sammy Tansley ar EU diwrnod priodas ar 31 Gorffennaf,2021 yn Essex. Llawer o gariad Mam a Dad ar teulu X



"Penblwydd hapus iawn i Seth Jones, Caerdydd ar ei ben blwydd yn 5 oed ar Hydref 19 gan Taid a Nain Dinbych, Anti Nia ac Yncl Sam ac Elen xx"





Bwganod brain cystadleuaeth y carnifal



Peintio’r aur

## RHESTR Y SWYDDOGION


**CADEIRYDD**
Stan Lyall 813659

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

Ebost y Bigwn:
ybigwn@hotmail.co.uk



Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain



'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'

CYMRAEG


**Golygydd Mis Tachwedd: Angharad Rhys**

# Gair gan y Golygydd

Panig llwyr! Dyna oedd yr olygfa Ddydd Mawrth, yr 21ain o Fedi yng ngorsafoedd petrol Dinbych a'r dalgylch. Roedd pympiau yn y gorsafoedd petrol wedi eu gwagu yn dilyn torfeydd o yrwyr yn heidio i'r ardal. Ymddengys fod ciwiau o geir yn ymwlybro o Morrisons hyd at Bwll y Grawys y diwrnod hwnnw, a nifer fawr o bobl anfodlon ac anhapus wedi eu siomi nad oedd tanwydd ar ôl. Ond beth achosodd y fath olygfa. Nid diffyg cyflenwad o betrol, ond diffyg gyrwyr HGV sy'n taro cadwyni cyflenwi lledled y wlad. Mae'r prinder yn cael ei gymhlethu gan yr angen am gymhwyster arbenigol, sydd ei angen i gludo sylweddau peryglus fel tanwydd. Mae Brexit wrth gwrs, (Yr Eliffant yn yr ystafell ) wedi cymhlethu'r sefyllfa hefyd, gan fod nifer o'r gyrwyr loriau o dramor wedi dychwelyd yn ôl i'w cartrefi ers tro.
Mae'r llywodraeth yn annog pobl i beidio â phrynu dan banig. Dywedodd yr ysgrifennydd trafnidiaeth Llywodraeth y DU Grant Shapps, y dylai pobl "barhau i brynu fel arfer", onid wrth ddweud wrth bobl i beidio mynd i panig yr ydych yn creu rhagor o banig? Geiriau doeth yn wir!
Yn anffodus mae nifer fawr o bobl wedi anwybyddu cyngor y llywodraeth. Roedd ciwiau hir yn parhau mewn rhai gorsafoedd yn dilyn y cyhoeddiad. Roedd hyd yn oed fideo o wraig yn gwagu botel dwr a'i lenwi â petrol mewn gorsaf. Mae'r panig yma wedi amlygu fod y cyfryngau gyda dylanwad sylweddol ac yn medru peri gofid a phryder di angen ar bobl gyffredin ac wrth ei boddau yn corddi'r dyfroedd!

**Morgan Cordiner**



Gwobrwyo Davey

**Dyddiad cau'r BIGWN, mis Tachwedd**
**Pob dim i fod yn cyrraedd e-bost Y Bigwn - ybigwn@hotmail.co.uk erbyn Hydref 22**

### Urddy Cyfeillion Ysbyty Glan Clwyd

Mae'r urdd yn elwa o dros £780 wedi bore prysur iawn yng ngardd Betty Williams a'i theulu hynod o garedig yn Roe Parc Llanelwy.
Roedd y byrddau gwerthu yn orlawn a lliwgar dros ben.
Mae'n diolch yn enfawr i Dilys, Bradley a'u teulu am y croeso a'r holl baratoadau.

### Cinio Nadolig Clwyd 2020

5ed Rhagfyr 2021
am 12:30yh
Canolfan Cae Cymro, Clawddnewydd
Cinio 4 cwrs- £25 oedolion, £10 plant cynradd
I archebu tocynnau cysylltwch a Lowri ar 07980 877 435.


sir ddinbych denbighshire
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

# Y Capeli

## Capel y Fron

**Bore Sul, Gorffenaf 11eg yr oedd y Parch W.H. Pritchard i fod i ddod atom, ond roedd cyflwr ei iechyd ddim yn caniatau iddo wneud y daith o Bae Trearddur. Fe wnaeth Wendy Lloyd Jones trefnu fod Mr Ednyfed Williams, Mrs Eiri Jones a Mrs Margaret Madoc Jones yn cymryd rhan yn y cyfarfod gweddi bendithiol iawn, gyda Mrs Iona Edwards yn cyfeilio ar yr organ.**

**Bore Sul, Gorffenaf 18 fed yr oedd y gwasanaeth yn y Capel Mawr gyda'r Parch Glyn Thomas, Abergele yn gwasanaethu, ac bore Sul Gorffenaf 25 ain yr oedd yr oedfa dan ofal ein Gweinidog Y Parch Andras Iago.**

**Estynodd Mrs Gaynor Prew groeso cynnes i'r Parch Nesta Davies atom bore Sul Awst yr 8fed, ac fe wnaeth Gaynor estyn croeso yn ôl i Mrs Tegwen Williams wedi iddi gael triniaeth ar ei throed yn Ysbyty Gobowen. Hefyd estynwyd llongyfarchiadau i Dafydd Alun , wyr y Parch Eifion Jones ar ei lwyddiant yn yr Eisteddfod amgen. Mrs Iona Edwards oedd yr organyddes.**

**Yr ydym yn anfon ein cofion at bawb sydd ddim yn gallu mynychu'r oedfa oherwydd gwahanol amgylchiadau.**

**Bore Sul, Medi'r 12 fed yr oedd y gwasanaeth dan ofal ein Gweinidog y Parch Andras Iago.**

**Yr ydym wedi colli aelod annwyl iawn ar ddiwedd mis Awst, pan fu farw Mrs Gwyneth Morris yng nghartref Plas Gwyn. Fe ddaeth Gwyneth yn blentyn ifanc i'r Fron pan ddaeth y teulu i fyw i Albert Terrace, ac fe ddaeth Mr a Mrs Davies, Idris a Gwyneth yn aelodau. Mi fu Gwyneth yn weithgar iawn - yn athrawes Ysgol Sul y Plant, trysorydd casgliad y plant, yn hyfforddi plant ac oedolion ar gyfer Gŵyl Ysgolion Sul ac hefyd Eisteddfod Tai, ac yr oedd yn cystadlu ac yn action gyda'r Cwmni Drama. Ond ei diddordeb mwyaf oedd cerddoriaeth- canu corawd a canu cynulleidfaol, ac fe fu yn organyddes am dros 70 mlynedd. Gwyneth oedd mor garedig a rhoddi'r organ Newydd at ein gwasnanaeth pan fu i ni adnewyddu'r capel. Yr oedd Gwyneth yn berffaith wrth natur ac hynny yn amlwg yn ei chartref ac yn ei gwisg bob amser. Cynhalwyd gwasanaeth preifat yma yn y Fron ac yna yn mynwent y dre. Yr ydym yn cydymdeimlo a'i merch Pamela, Paul a'i wyr Owen a'i Wyres Helen a dau O'r wyr Tomos a William a'r teulu i gyd.**

## Y BIGWN - TRYSORYDD

Rydym yn chwilio am Drysorydd cyn gynted â phosib.
Does dim gwaith golygu ynghlwm wrth y gwaith.
Cysyllter â: -
John Geraint Jones 01745 817485
jones_john@btinternet.com
neu â:-
Stan Lyall 01745 813659 stanmaberic@hotmail.com

## Aelodaeth Yr Urdd ar agor i blant a phobl ifanc Cymru

Mae 2022 yn flwyddyn arbennig i'r Urdd, gyda'r mudiad yn dathlu ei chanmlwyddiant. Sefydlwyd gan Syr Ifan ab Owen Edwards yn 1922 gyda'r bwriad o amddiffyn y Gymraeg ac erbyn heddiw mae 55,000 o aelodau yn mwynhau profiadau unigryw a chyffrous trwy gyfrwng y Gymraeg.

I nodi'r achlysur, bydd llwyth o weithgareddau a digwyddiadau hwyliog i blant a phobl ifanc o 8 – 25 oed yn cael eu trefnu ledled Cymru yn ystod 2022.

O chwaraeon i'r celfyddydau, gwaith dyngarol i wirfoddol, mae'r Urdd yn cynnig gymaint i blant a phobl ifanc Cymru. Ac ym mlwyddyn y canmlwyddiant, dyma gyfle i blant a phobl ifanc Cymru i fod yn rhan o hanes.

Mae pris aelodaeth eleni yn £10 y plentyn neu aelodaeth teulu am £25 (ar gyfer tri neu fwy o blant). Mae'r Urdd hefyd yn cynnig aelodaeth am £1 i unrhyw blentyn sy'n derbyn cefnogaeth ariannol drwy gynllun cinio ysgol am ddim. Gallwch ymaelodi drwy ein gwefan: www.urdd.cymru/ymuno

Ddim rhwng 8 a 25 oed ond yn awyddus i fod yn berchen ar fathodyn i nodi canmlwyddiant yr Urdd? Mae rhoddion ariannol yn gymorth mawr i ni allu parhau i drefnu a chynnal gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac rydym yn hynod ddiolchgar am bob rhodd. Eleni, gyda phob cyfraniad dros £20, bydd cefnogwyr yr Urdd yn derbyn bathodyn trwy'r post. Am wybodaeth pellach mae croeso i chi fynd i'n gwefan: www.urdd.cymru/cyfrannu

Mae bathodyn aur arbennig ar gael i aelodau'r Urdd eleni!



## Bara Caws yn dychwelyd i'r theatr gyda 'Byd Dan Eira' gan Sion Eirian



Byd Dan Eira yw'r ddrama olaf i Siôn Eirian ei chyflwyno i Bara Caws. Ni fu cyfle i ni gael y sgyrsiau a'r trafodaethau difyr arferol, ond diolchwn am y berthynas ffrwythlon fu rhyngom dros y ddegawd ddiwethaf, ac am ffydd Erica yn ein huchelgais i wireddu ei weledigaeth ysgytwol o berthnasol.

Mae'r deunaw mis diwethaf 'ma wedi bod yn sialens i ni gyd. Ond, 'dwi'n falch o ddweud fod Bara Caws yn mentro yn ôl i'r theatr yn araf bach. Mi fyddwn yn llwyfannu drama Sion Eirian - 'Byd Dan Eira' - yn y Galeri, Caernarfon, ar y 1af a'r 2il o Hydref am 8yh.

Gyda chast gwerth chweil yn cynnwys Sharon Morgan, Eiry Thomas a Kizzy Crawford, wedi'i gyfarwyddo gan Betsan Llwyd, gyda choreograffi gan Eddie Ladd a cherddoriaeth wreiddiol gan Lleuwen Steffan. Peidiwch â cholli'r cyfle i weld y ddrama arbennig hon.

Os nad ydych yn teimlo'n hyderus i ddychwelyd i'r theatr ar hyn o bryd, byddwn yn ffrydio'r ddrama yn fyw o'r Galeri ar y ddwy noson. Gellir prynu tocyn i fynychu'r perfformiad byw yn y Galeri neu brynu tocyn i wylio'r perfformiad adref ar eich cyfrifiadur trwy ddolen a fydd yn cael ei ddanfon atoch chi.

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

# Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru




Ers i'r ysbyty gau yn 1995 mae dyfodol yr adeilad hanesyddol yma wedi bod yn bryder i rai trigolion Dinbych. Dros y blynyddoedd rydym wedi clywed llawer am y cyngherddau, y dramau, y tîmau chwaraeon ac yn arbennig am y gymdeithas glos a oedd yn bodoli ymysg y gweithwyr yno. Yn bersonol, mi ddysgais i lawer am yr hanesion hyn trwy'r digwyddiadau amrywiol, boed hynny yn arddangosfa neu yn ddrama, a gyflwynwyd am yr hen ysbyty yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych a'r cylch.

Ers i'r ysbytu gau mae nifer o berchnogion wedi bod yn esgeulus iawn o'r safle cyfan ac o'r darn rhestriedig o'r adeilad. Yn ogystal, mae llawer iawn o fandaliaeth gan gynnwys tanau mawrion wedi difrodi rhannau helaeth o'r adeilad. Roedd Heddlu Gogledd Cymru a'r Gwasanaeth Tân yn cael eu galw yno yn wythnosol ac yn gweld y lle, nid yn unig yn beryglus i fywydau, ond yn cymeryd llawer iawn o'u amser a'u adnoddau.

Felly y bu i Gyngor Sir Ddinbych gymeryd y safle cyfan i'w perchnogaeth trwy orchymun prynu gorfodol. Y bwriad wedyn oedd i drosglwyddo perchnogaeth y safle cyfan i gwmni preifat dibenadwy a fase'n ymgymeryd gyda achub y rhannau rhestriedig o'r adeilad, a gwneud hynnu heb i'r gôst ddisgyn ar drethdalwyr Sir Ddinbych.

Felly y bu i'r safle fynd allan i dendr ac i gwmni lleol Jones Bros. gael yr hawl i ddechrau gwneud y safle yn ddiogel ar eu costau ei hunain, defnyddio'r safle i hyfforddi prentisiaid ac i ddod fyny gyda cynllun i ariannu y gwaith o adfer prif adeilad yr hen ysbytu.

Eu cynllun nhw yw i adeiladu a gwerthu tai ar y safle ac i ddefnyddio peth o'r elw i achub y prif adeilad. Fel y gwyddoch mae'n siwr, fe roddwyd caniatâd cynllunio iddynt ychydig yn ôl gan Bwyllgor Cynllunio y Sir i fwrw mlaen gyda hyn.

Bwriad y cwmni datblygu felly yw i gychwyn adeiladu tai ar y safle. Maen't wedi cael caniatad amlinellol i adeiladu 300 o dai dros y 10 degawd nesaf. Nid ydynt yn mynd i adeiladu 300 ar yr un pryd. O adeiladu a gwerthu y tai mi fyddant yn defnyddio peth o'r elw i gychwyn adfer yr hen adeilad. Hyd y gwn, mae'n fwriad ganddynt i geisio rhoi o gwmpas 30 o fflatiau yn yr hen adeilad.

Y deilema i bawb yw bod pwysau aruthrol wedi cael ei roi dros y blynyddoedd i 'achub' yr adeilad ond yr unig ffordd i wneud hynny yw trwy adeilau llwyth o dai newydd ar gyrion y dref. Tai o bosibl nad oes eu angen ar gyfer trigolion lleol ac o bosib na fydd yn fforddadwy i'r mwyafrif o drigolion lleol.


Mae hefyd yn bosibl y bydd y cynllun yn denu arian o ffynonellau eraill megus arian Cronfa T f Gogledd Cymru ac mae cynlluniau y datblygwyr yn cynnwys elfennau eraill fel unedau ar gyfer busnesau bychan, siop, ac hefyd darparu cartref newydd i Glwb Criced Dinbych.

Pryder nifer ohonom wrth gwrs yw effaith y datblygiad yma ar iaith a diwylliant yr ardal. Rydym hefyd a chonsyrn am y bwriad o greu 'pentref' newydd a fydd mor agos i'r dref ac eto ar wahan i'r dref. Yn olaf mae'n bryder i ni a yw ysgolion lleol, y gwasanaeth iechyd a gofal lleol ac hyn yn oed y priffyrdd presennol yn ddigonol i gynnal y fath gynnydd yn y boblogaeth.

Pryder mawr arall fely dywedwyd yn barod yw na fydd hyd yn oed un cartref ar y safle yn dy fforddadwy nac yn d  cyngor. Mae hyn oherwydd bodrhan o'r elw a ddaw o'r datblygiad yn cael eu ddefnyddio i adfer yr hen adeilad yn hytrach nac i adeiladu tai fforddadwy.

Rwy'n gobeithio fy mod wedi llwyddo i esbonio'r sefyllfa yn gywir i ddarllenwir Y Bigwn ac os oes gennych gwestiwn yr hoffech ofyn i mi yna cofiwch gysylltu.

Rhys Thomas

MALDWYN WILLIAMS

Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840

GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR
GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

Daniel Morris
CIGYDD LLEOL
01745 812585
info@dmorrisbutchers.co.uk
www.dmorrisbutchers.co.uk
124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS

# Mae'r amser wedi dod i mi roi'r banjo yn y to. Mae'r Rivercity Jazzmen wedi dod i ben ar ôl dros 60 mlynedd o berfformio.



Theatr Twm o'r Nant



Kenny Ball

Dechreuodd y cyfan gyda band jazz o Fangor, a dyna lle mae'r enw 'Rivercity' yn tarfu. Clive Evans oedd yr arweinydd ar y pryd, a finne ar y banjo, ac yn yr 80au, cymerais y rôl fel arweinydd fy hun. Erbyn hyn roedd Glyn Edwards wedi ymuno â'r band ar y gitâr fas; Glyn hefyd o Ddinbych wrth gwrs, a dyma oedd dechrau amser braf i mi o gael trafaelio dros y wlad efo cwmni difyr.

Yn edrych yn ôl ar y blynyddoedd gyda'r band, cawson ni lot fawr iawn o hwyl ac amseroedd bythgofiadwy. Roedden ni'n chwarae ar draws Prydain mewn gwahanol ddigwyddiadau fel priodasau, partïon nos calan, partïon gwaith, angladdau, Gŵyl Rhuthun a charnifalau gan gynnwys Llanrwst. Hefyd, bob nos Fercher am flynyddoedd lawer, roedden ni'n chwarae mewn clybiau jazz yn ardal Conwy a Llandudno.
Roedd llawer o uchafbwyntiau, gan gynnwys trip i'r Almaen a'r Iseldiroedd, draw i Lydaw i ddathlu gefeillio gyda Rhuthun, teithio dros y Mignaint i Butlins Pwllheli bod dydd Mawrth dros fisoedd yr haf, ambell waith ym Mhortmeirion, oedd yn le hyfryd i berfformio, a chwarae ar gwch yn ôl a 'mlaen o Gaergybi i Ddulyn dros ambell i benwythnos a chael rhaglen S4C 'Hel Straeon' yn ein dilyn gyda Lyn Ebeneser.
Yn fwy lleol, noson gofiadwy oedd agoriad Theatr Twm o'r Nant, gyda merched o'r dre yn dawnsio fel merched Charlston, a hefyd, cawson y fraint o berfformio gyda'r trwmpedwr jazz enwog Kenny Ball yn Oriel House pan ymunodd â ni fel 'artist gwadd'. Ar y pryd, roedd yr actores o Ddolgellau, Nia Medi yn canu gyda'r band hefyd...noson i'w gofio!
Mae ymddangosiadau eraill ar y teledu yn cynnwys 'Disc a Dawn' yn y 60au, perfformiad byw ar raglen Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl yn 1985, a 'Taro Tant' hefyd yn yr 80au, gydag un perfformiad arbennig gyda Sir Bryn Terfel a John Eifion yn ymuno mewn trefniant jazz o 'Mae'n Wlad i Mi' gyda'r grŵp gwerin Bwchadanas, Wedyn yn y 90au, perfformiad byw arall ar 'Heno' o Landudno, a thrip i stiwdios yng Nghaerdydd yn 2001 efo Côr Merched Glyndŵr i gymryd rhan yn 'Am y Gorau', lle roedd y côr yn cystadlu yn erbyn côr o Lanuwchllyn gyda chystadlaethau adloniant. Ac wrth gwrs, Dinbych enillodd!

Mae ein perfformiadau teledu i'w gweld ar ein sianel YouTube, Rivercity Jazzmen. Mae'r band hefyd wedi rhyddhau tri CD dros y blynyddoedd.
Wrth edrych yn ôl ar yr amser bendigedig, dwi'n ddiolchgar dros ben am gael gwneud ffrindiau gyda llawer o gerddorion dawnus ar draws gogledd Cymru a Lloegr, a hefyd dilynwyr a ffrindiau ffyddlon y band.
Chwaraewyd gig olaf Rivercity Jazzmen yn 2019, ond doedd dim syniad beth oedd rownd y gornel pan roddodd Covid-19 stop ar berfformio byw, ac felly, dod â'r band i'w derfyn. Am dros 30 mlynedd, roedden ni wedi chwarae ar pier Llandudno pob gwyliau cyhoeddus a bob haf, ac yn anffodus roedd rhaid canslo dyddiadau 2020. Diolch am gael iechyd i chwarae dros y blynyddoedd a diolch yn arbennig i Glyn am ei gefnogaeth a rhannu'r dreifio. Mae Glyn hefyd wedi chwarae am flynyddoedd yn y band a hefyd yn ymddeol.

Rhagfyr Jones



Gwyl Rhuthyn



Taro tant gyda Bryn Terfel



**Cyflyno dy hun a dy arbeingedd i ddarllenwyr Y Bigwn?**

**Helo Cirin ydw i, rwyf yn 31 mlwydd oed ac yn byw yn Ninbych. Rwyf yn artist sydd yn arbenio mewn darluniau sydd wedi'w creu allan o gerrig a phren. Sefydlais y busnes yn llawn amser yn 2014 ac ers hynny mae fy nghwaith wedi datblygu'n llwyddiannus dros y blynyddoedd.**

**Sut gychwynodd dy ddiddoreb mewn celf a chreu darluniau?**

**Ers bod yn blentyn, mae bod yn greadigol yn rhedeg yn y teulu! Roedd fy hen daid sef Gwilym.R Jones yn fardd creadigol iawn ac yn mwynhau darlunio a phaentio. Mae Taid (Berwyn) yn gefn mawr imi, yn enwedig drwy gaslgu cerrig ac adeiladu tai pren bach imi. Drwy gydol fy nhyfnod yn yr ysgol, mi wnes i fwynhau Celf a Dylunio a Thechnoleg fel pynciau TGAU ac Lefel A ac arweiniodd hynny imi wneud fy ngradd mewn pensaernïaeth a dylunio mewnol.**

**Pam dewis arbennigo mewn darluniau cerrig?**

**Ers fy mod yn blentyn, rwyf wedi cael cysylltiad â'r afon yn yml cartref nain a taid. Wrth fynd am dro ar lan yr afon un diwrnod, mi ges i'r syniad o ddefnyddio cerrig afon yn fy nghwaith a cheisio gweld y posibiliadau yn y siapiau diddorol. Mi wnes i lenwi llond bwced gyda cherrig o bob siap a golwg, ac yna mynd ati i greu amrywiaeth o bortreadau, teuluoedd, cyplau a llawer mwy. Mae'r porteadau yma yn boblogaidd iawn yn enwedig y rhai sydd a neges neu gyfarchiad personol iddyn nhw.**

**Beth oedd y sbardun i ddechrau dy fusnes C17?**


**Cyn sefydlu'r busnes, roeddwn yn creu darluniau ar gyfer fy nheulu a ffrindiau agos. Cychwynais rhoi lluniau o fy nghwaith ar y we, a mwyaf sydyn cefais lot fawr o ddiddordeb a bobl yn awyddus i brynu ffram. Dros y blynyddoedd, mae fy nyluniadau wedi datblygu o fod yn syniad syml e.e portread teulu i greu gweithiau celf unigryw a phersonol ar gyfer achlysuron arbennig megis priodasau, genedigaethau, dyweddiad a llawer mwy.**

**I ba gyfeiriad y hoffet weld dy waith a dy fusnes yn datblygu yn y dyfodol?**

**Rwyf wedi bod yn hynod o lwcws dros y blynyddoedd i gael gymaint o gwsmeriaid mor ffyddlon ac yn rhoi enw da am fy nghwaith. Mae'r ffaith fy mod wedi gallu hysbysebu fy nhwnmi dros cyfryngau cymdeithasol megis Facebook, Instagram ac yn ddiweddar TikTok wedi bod yn hynnod o ddefnyddiol imi gael cynulleidfa ehangach i weld a phrynu fy ngwaith. Yn y dyfodol, rwyf yn gobeithio ehangu a datblygu'r busnes i greu darluniadau gwahanol ac i werthu cynnyrch ar gyfer y cartref. Os hoffech brynu ffram, fy ebost yw c17designs@outlook.com neu ewch i'r wefan www.c17designs.co.uk am fwy o wybodaeth.**









# Cornel y Plant

Y BIGWN



## Chwilair

## Ar y fferm



Dewch o hyd i'r geiriau hyn :



| | | |
|---|---|---|
| cath | hwyaid bach | iar |
| gafr | mochyn | ceffyl |
| dafad | oen | twrci |
| tarw | buwch | ceiliog |
| tractor | cywion | stabl |
| beudy | mul | gwydd |



| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| h | t | th | c | y | w | i | o | n | th | a | s | c |
| w | c | o | dd | y | w | g | c | th | f | i | t | e |
| y | g | e | n | w | y | m | ff | c | a | d | e | i |
| a | h | i | ff | i | d | d | n | r | g | c | r | l |
| i | m | j | b | y | r | m | u | l | n | l | h | i |
| d | dd | l | c | b | l | n | ll | e | s | s | i | o |
| b | u | w | ch | w | o | r | p | j | b | a | e | g |
| a | p | ll | r | r | f | rh | e | a | r | e | s | ll |
| ch | e | y | y | a | i | c | r | w | t | rh | l | n |
| r | w | a | g | t | j | o | u | e | i | d | b | y |
| t | r | a | c | t | o | r | o | i | o | g | a | ch |
| i | ff | s | i | ch | l | d | a | f | a | d | t | o |
| n | e | o | s | j | a | g | y | o | p | b | s | m |





## Noson Tân Gwyllt



Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar flickr

Cwmulus

https://cwmulus.org/


**Digwyddiadau**

**Cynhaliwyd nifer o ddarlithiau gwahanol iawn i'w gilydd ar-lein gan yr Amgueddfa a Chwmulus yn ystod misoedd yr haf. Y cyntaf o'r rhain oedd Dewch i Dregaron – Ardal yr Eisteddfod gan y Parch Dr. D. Ben Rees. Ganwyd y siaradwr yn ardal Tregaron a chyhoeddir ei lyfr newydd 'Croeso i Dregaron" yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y dref yn 2022. Yn y ddarlith, rhoddodd Dr. Rees gipolwg ar hanes y dref dros y canrifoedd, gan gyfeirio yn arbennig at Henry Richard, 1812-1888, heddychwr a gwleidydd. Soniodd am draddodiadau eisteddfodol a cherddorol, crefydd, Cymreictod a phobl leol dylanwadol, gan gynnwys disgyblion ac athrawon enwog yn yr Ysgol Uwchradd, nifer o feirdd cenedlaethol yn eu plith. Gorffennodd wrth nodi atyniadau presennol y dref, Cors Caron, y Cob Cymreig, y Barcud Coch, pysgota, Twm Siôn Cati ond nododd hefyd y diboblogi sy'n digwydd ar hyn o bryd sy'n arwain at wanhau'r iaith a'r diwylliant lleol.**



**Sgwâr Tregaron a chofgolofn Henry Richard**

**Yn y ddarlith Cysylltiad â Lerpwl- Teganau, Trenau a Setiau Di-wifr bu Steve Harris, cyn-gyfarwyddwr yr Amgueddfa Ddarlledu yng Nghaer, yn sôn am weithgynhyrchwyr cydrannau radio yn ardal 'Old Swan' yn Lerpwl yn y 1920au a'r 1930au, oedd hefyd yn cynhyrchu teganau. Cyfeiriodd yn arbennig at Hornby oedd yn enwog am drenau a Meccano, Lotus a gynhyrchai citiau ar gyfer adeiladu setiau grisial diwifr a Wingrove & Rogers a gynhyrchai locomotifau trydan. Mae gan Steve siop dechnoleg hanesyddol "On The Air" ym Mhenarlâg ac roedd yn medru dangos engreifftiau o'r eitemau roedd yn sôn amdanynt o'i gartref. Ffrwyth ymchwil ar gyfer erthygl yng nghylchgrawn "Air Waves" mae Steve yn ei gynhyrchu bob deufis oedd y sgwrs yma.**



**Set grisial diwifr o'r 1920au, yn yr Amgueddfa**

**Herio Synnwyr – Gwawr Gwrtheyrn oedd teitl sgwrs boblogaidd Dr. Carl Clowes i ni wrth iddo egluro sut y sefydlwyd Canolfan Iaith a Threftadaeth Cymru yn Nant Gwrtheyrn. Ymgartrefodd Dr. Carl yn Llanaelhaearn, wrth odre'r Eifl, fel meddyg teulu yn 1970 mewn cyfnod o ddiweithdra oherwydd tranc y chwareli ithfaen, diboblogi, dirywiad mewn iechyd cyhoeddus a diffyg hyder y fro. Cyn hynny roedd 90% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg ac felly roedd angen gwneud rhywbeth i wyrdroi'r dirywiad a sicrhau ffyniant i'r ardal a llwyddiant i'r iaith. Prynwyd darn o dir a sefydlwyd Antur**



**Nant Gwrtheyrn**

**Aelhaearn, gan greu cyfle i bobl werthu y dillad roedden nhw yn eu gwau. Codwyd adeilad pwrpasol i'r fenter yn 1975, ac mae wedi cael ei ymestyn yn ddiweddar i gynnwys mwy o weithdai amrywiol. Effaith hyn oedd bywiogi pentref Llanaelhaearn ac ysgogi gweithgarwch cydweithredol mewn ardaloedd cyfagos, megys Tafarn y Fic yn Llithfaen. Tyrrodd pobl o'r cyfryngau i gael golwg ar yr hyn oedd yn digwydd.**

**Roedd pentref Nant Gwrtheyrn ar y pryd yn bentref gwag, dadfaeledig ers i'r teulu olaf adael yn 1959, a doedd dim trydan, dŵr na charthffosiaeth yno. Roedd angen dybryd am waith yn yr ardal ac ers Deddf Iaith Gymraeg 1967, roedd angen mwy o siaradwyr Cymraeg er mwyn cynnig gwasanaethau Cymraeg. Dyma beth ysgogodd Dr Carl i gychwyn y broses o brynu'r pentref a'i drwsio a'i ddatblygu i fod yn Ganolfan Iaith a Threftadaeth Cymru. Codwyd arian yn lleol, a thros y blynyddoedd cafwyd cyllid gan grwpiau a chyrff cyhoeddus o bell ac agos, y llywodraeth ac Ewrob. Caffi Meinir oedd yr adeilad cyntaf i gael ei drwsio yn 1975, ac ail-godwyd y waliau a gosodwyd to sinc arno. Mae'r gwaith wedi mynd yn ei flaen gyda'r pwyslais ar gydnawsedd a defnyddio deunydd a chrefftau lleol. Erbyn hyn, mae'r Ganolfan Iaith yn llwyddiannus ac yn enwog, ac mae'r pentref yn cynnig llefydd gwyliau, a lleoliad ar gyfer priodasau hefyd. Mae'n cyflogi 36 o bobl yn ystod haf arferol. Yn ganlyniad mae hyder a iechyd cyffredinol yr ardal wedi codi.**

→



TE YN Y GRUG

**Tŷ Te a Delicatessen**

**Coronation Buildings, Lôn Gefn, Dinbych, Ll16 3TE**

**deli@teynygrug.co.uk**

**01745 816576**

**Y Darlithiau nesaf**

Dyma'r darlithiau nesaf yn y gyfres, sy'n agored i bawb, ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Ewch i'r gwefannau uchod neu dudalen Facebook Gwefr heb Wifrau i gofrestru:

Mynydd a Monadh – Atseiniau o Gymraeg yn Nhirlun Gaeleg yr Alban yw testun sgwrs Saesneg Roddy Maclean ar Medi'r 24ain. Gaeleg ydy'r iaith gryfaf yn nhirlun bryniog, hardd Ucheldiroedd yr Alban. Yn y ddarlith hon, mae Roddy Maclean, awdur, darlledwr ac addysgwr Albanaidd, yn archwilio sut mae dealltwriaeth o eiriau Celteg cytras ac etifeddiaeth Celteg-P hynafol yn medru gwneud y tirlun hwnnw ychydig bach yn fwy cyfarwydd i ymwelwyr o Gymru. Bydd yn edrych ar dermau am dirffurfiau a natur sy'n cynrychioli cysylltiad rhwng ein dwy genedl Gelteg, a bydd yn rhoi cyngor ar fframwaith ac ynganiad toponymau Gaeleg

Ar Hydref 15fed, bydd David Lloyd, hanesydd ac ymgynghorwr radio, yn siarad am Hanes Radio yn Saesneg. Bydd yn adrodd stori liwgar y cyfrwng o ddyddiau arloesol y 1920au trwy enedigaeth y BBC, dyfodiad y peirats, radio lleol, radio masnachol, radio yng Nghymru, a'r ffrwydrad sain ddigidol gyfoes. Bydd yn sôn am raglenni a chyflwynwyr y cofir amdanyn nhw'n annwyl, yn ogystal â'r datblygiadau technegol yn y cyfrwng mwyaf personol hwn mae naw allan o ddeg person yn dal i wrando arno bob wythnos.

Cefnogi sefydliadau yn y gymuned

Mae Cwmulus wedi cefnogi nifer o gymdeithasau yn y gymuned a thu hwnt yn ystod yr haf, trwy ddarparu adnoddau technegol iddyn nhw gael cynnal eu digwyddiadau ar-lein. Cafodd darlith Cymdeithas Hanesyddol Caerwys ei ffrydio yn fyw o'r Amgueddfa un noson a ffrydiwyd darlith flynyddol Drysau Agored Dinbych gan Will Davies, Arolygwr Henebion Cadw o Dde Cymru, y noson ganlynol. Un o ganlyniadau amlwg hyn yw cynyddu maint y gynulleidfa a chafwyd ymateb i'r digwyddiadau gan wylwyr o Norwy a Chaliffornia.




**Ail-agor yr Amgueddfa**

Bydd yr Amgueddfa ar agor bob prynhawn Sadwrn, 1.00 - 4.00, i ddau ymwelydd ar y tro, yn ystod yr hydref. Er mwyn trefnu apwyntiad, cysylltwch â gwybod@gwefrhebwifrau.cymru.

# Côr Meibion Dinbych a'r Cylch

Fe sefydlwyd y côr yn 1988 o dan arweinyddiaeth Phyllis Dryhurst-Dodd MBE gyda Dorothy Kirk wrth ei hymyl fel cyfeilyddes dros y pymtheg mlynedd gyntaf. Roedd Dorothy yn gyn bennaeth Cerdd mewn ysgol yn Lerpwl ac o dan arweiniad y ddwy, tyfodd y côr o nerth i nerth. Yn 2001, cymerodd Arwyn Roberts y baton; Cerddor talentog ac aelod corawl profiadol iawn. Sefydlodd Arwyn enw da i'r côr hyd at 2018 lle dychwelodd Nia Wyn Jones fel cyfarwyddwraig cerdd. O dan arweinyddiaeth Nia, fe ddysgwyd nifer o ddarnau newydd a chyfoes. Yn anffodus, dim ond ar ôl rhai misoedd, roedd rhaid rhwystro'r ymarferion yn sgìl y pandemig. Colled fawr roedd i'r côr lle yn ddiweddar, bu i Nia Wyn Jones a'r gyfeilyddes Nia Mary Jones ymddiswyddo. Ar y 14eg o Fedi 2021, fe apwyntiwyd Robert Samuel Pritchard BA Cerdd, TAR fel cyfarwyddwr cerdd a chyfeilydd. Bu i Sam astudio cerdd yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin ac yna aeth ymlaen i gwblhau ei ymarfer dysgu ym Mhrifysgol Bangor yn ddiweddar. Yr ethos cymunedol sy'n sylfaen i'r côr yma. Mae'r aelodau wedi ymfalchïo mewn codi arian i elusennau lleol a chenedlaethol yn yr un modd. Wrth gwrs, nid yn unig yng nghylch Dinbych mae'r côr wedi perfformio, ond ledled y DU ac yn bellach coeliwch neu beidio! I enwi ychydig, bu i'r côr berfformio yn yr ¤yl Ban-geltaidd, Yn yr Albert Hall ac yng Nghapel y Methodistiaid, Llundain. Roedd y côr yn ddigon ffodus o gael cyfle i berfformio'n fyd eang ar y BBC gyda 'Evening Prayer' gan Dylan Thomas. Gyda'r amgylchiadau yn parhau i lacio, mae'r côr yn edrych ymlaen yn fawr i fedru cyfarfod unwaith yn rhagor er mwyn dechrau'r paratoadau ar gyfer perfformio mewn cyngherddau a phriodasau yn fuan iawn unwaith eto. Mae'r ymarfer cyntaf yn ôl yn cael ei gynnal ar Ddydd Mawrth y 12fed o Hydref 2021 am 19:30 yng Nghanolfan Gymunedol Eirianfa, Dinbych.

"Hoffwn i estyn gwahoddiad cynnes iawn i unrhyw aelod newydd a hoffai ymuno â ni ar ein taith wedi'r pandemic. Mae fy apwyntiad fel cyfarwyddwr cerdd yn marcio dechrau positif newydd i ni gyd. Er gwaethaf yr amseroedd anodd oblegid COVID-19, rydw i'n edrych ymlaen yn fawr i gofleidio'r her yma. Hefyd, rwy'n edrych ymlaen yn fawr i weithio gyda Chôr Meibion Dinbych a'r Cylch."

Robert Samuel Pritchard
BA Cerdd, TAR

SIOP CLWYD
33 STRYD FAWR, DINBYCH LL16 3HY
01745 813431
Llyfrau, Cardiau
Crynoddisgiau a
Chrefftau
cojo@siopclwyd.co.uk

CATalyst Systems - 01745 816611
enquiries@catsystems.co.uk
Cymraeg
Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

Wrth ysgrifennu i'r rhifyn yma, rydym wedi cael pythenos yn ôl yn yr ysgol ac yn falch iawn o weld yr holl blant yn setlo yn dda i'w blwyddyn newydd yn yr ysgol. Do, bu ambell ddeigryn gan ambell i blentyn a rhannwyd ambell i dishw â rhiant dosbarth meithrin wrth iddynt ffarwelio a'u cywion bach am y tro cyntaf ond rydym yn edrych ymlaen am flwyddyn fwy "normal" eleni gobeithio gyda'r plant yn derbyn profiadau lu yn eu hunedau.

Rydym yn croesawu pennaeth newydd i'r ysgol sef Mr Dafydd Davies. Enw cyfarwydd i Ysgol Twm o'r Nant gan ei fod o wedi bod yma gynt fel athro, dirprwy bennaeth a phennaeth dros dro am gyfnod. Rydym yn falch iawn o'i groesawu yn ôl ac yn edrych ymlaen i'w weld o yn symud yr ysgol yn ei blaen a pharhau i ddatblygu y safonnau uchel sydd gennym yn yr ysgol yn barod.

Mae dwy aelod newydd arall wedi ymuno â'g uwch dîm yr ysgol hefyd sef Mrs Sian Jones a Mrs Mari Wort. Mae nhw yn cymryd y rôl o arweinwyr yr uned dan 5 a'r uned dan 7. Croeso cynnes iddynt ac rydym yn dymuno yn dda iddynt yn eu rôl newydd.

## Uned dan 5

Croeso mawr i bawb yn yr uned dan 5 ac yn arbennig I'n crow bach Newydd ni yn y dosbarth meithrin. Mae disgyblion UD5 wedi mwynhau creu persawr hefo perlysiau yn yr ardd.








## Uned dan 7

Hyfryd oedd cael croesawu'r plant Blwyddyn 1 a 2 eleni a'u gwynebau llawn cyffro am weld eu ffrindiau yn yr Ysgol unwaith eto.

Roedden nhw'n awyddus iawn i weld beth fydd ein thema am yr hanner tymor. Dyfala Pwy? yw ein thema, a dysgu mwy am nhw eu hunain. Gan ddefnyddio y Llwybr lleisiau mae'r plant wedi nodi syniadau am yr hyn yr hoffen nhw ddysgu yn ystod yr hanner tymor. Roedd nifer fawr yn awyddus i ddysgu mwy am y corff ac am waith meddygon a deintyddion. Hefyd roedden nhw eisiau



dysgu mwy am gadw'n iach.

Mi fyddwn ni yn ail ddechrau sialens y filltir fawr sef cerdded o amgylch y buarth tair




*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E: rwroberts.gorffwysfa@gmail.com

Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com

www.rwrobertsandson.co.uk

Golden Charter Funeral Plans

SAIF National Independent Funeral Directors



SJ CYFREITHWYR SwayneJohnson SOLICITORS

Yn cyflwyno Amser i Siarad ....

**Ewyllysiau, Pwerau Atwrneiaeth a Costau Gofal**

NID OES ANGEN ARCHEBU LLE

**Ymunwch â'n harbenigwyr am gyflwyniad addysgiadol rhad ac am ddim ar y materion pwysig hyn gyda'r cyfle i holi ein cyfreithwyr profiadol**

**Neuadd Gymunedol Llys Erw Rhuthun**
*10yb–11yb*
**2il Mai**
4ydd Gorffennaf
**5ed Medi**

**Canolfan Gymunedol Eirianfa Factory Place, Dinbych**
*10yb-11yb*
20fed Mehefin
**18fed Gorffennaf**
15fed Awst
**19eg Medi**

**Canolfan Gymunedol Awelon Ffordd yr Ysgol, Rhuthun**
*10yb–11yb*
6ed Mehefin
**1af Awst**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'n Tîm Cleientiaid Preifat ar **01824 703833 (Rhuthun) neu 01745 818263 (Dinbych)**

**Byddwn yn cynnig gostyngiad unigryw i'r rhai sy'n mynychu**

www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

gwaith bob dydd yn y bore. Yn ogystal a hyn mi fyddwn ni yn codi arian tuag at Elusen Ronald McDonald gan wneud taith cerdded. Bydden ni'n heini iawn erbyn diwedd yr hanner tymor gyntaf!

Edrychwn ymlaen at ddod i adnabod ein gilydd yn ystod yr hanner tymor ac fe wnawn ni rannu ein hanesion gyda chi eto cyn hir.



Dyma lun o'r uned dan 9 sydd wedi setlo yn dda yn eu dosbarth newydd a bob un wedi derbyn tystysgrif seren yr wythnos am wneud hyn mor wych.

<u>Uned dan 9</u>

Braf oedd croesawu'r plant i gyd i'r uned dan 9. Plant blwyddyn 4 yn cael dod yn ôl i'r un uned a blwyddyn 3 newydd yn dod atynt. Roedd pawb yn gyffroes ar eu diwrnod cyntaf ac yn edrych ymlaen i gael gweld ar ba fwrdd oedden nhw yn eistedd a dod i wybod beth oedd thema yr hanner tymor cyntaf.

Dyma fi! yw ein thema ac rydym wedi bod yn brysur yn barod yn dysgu am y corff ac yn dod i adnabod ein gilydd. Byddwn yn cael ymweliad yn fuan gan ddoctor a down i wybod am hoff bethau plant yr uned. Y gamp i staff yr uned yr wythnos gyntaf oedd cofio enw pawb gan bod 83 o blant yn yr uned erbyn hyn!

Edrychwn ymlaen i gael rhannu hynt a helyntion yr uned, wrth i ni weithio drwy'r thema, yn eich rhifynau nesaf.

Cychwyn ar y thema Dyma Fi!



<u>Uned dan 11</u>

Hoffwn croesawu pawb yn ol i Uned dan 11 eleni ar gyfer flwyddyn cyffroes. Ein thema tymor yma yw Yr Ail Ryfel Byd. Mae'r disgyblion wedi dangos diddordeb mawr yn y pwnc yma yn barod ac mae llwyth o hanesion a gwybodaeth am deuluoedd yr ardal wedi cael ei rhannu gyda ni. Cofiwch os oes gennych rhywbeth am y Rhyfel i rannu -plis cysylltwch a ni a byddem wrth ein bodd yn cael eu clywed. Aethom am daith i fyny i weld y cof golofn yn y dref ac i weld lle roedd hen safel y gorsaf tren yn dod a'r efaciwis i Ddinbych. Roedd y disgyblion wedi gwirioni! Sgwn i ble yr awn ni nesaf?


HUW VAUGHAN JONES

Arlunydd,Cartwnydd

Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig.

Cysylltwch â Huw ar

01745 812184




# Ysgol Glan Clwyd

Llongyfarchiadau i'n holl ddisgyblion a myfyrwyr a lwyddodd yn yr arholiadau Lefel A, UG a TGAU yn ystod yr Haf.
Mae'r tymor newydd wedi dechrau ac rydym yn croesawu 192 o ddisgyblion newydd i fl 7 eleni. Mae 72 o ddisgyblion wedi dychwelyd i'r 6ed dosbarth hefyd.
Croeso: Rydym hefyd yn croesawu nifer fawr o aelodau newydd o staff. Mr Arwel Davies (Dirprwy Bennaeth), Llio Meleri Davies, Siriol Ellis, Gethin Morgan a Ffion Gwen Williams (Adran Gymraeg) Beth Mars-Lloyd (Gwyddoniaeth) Iwan Evans (Technoleg), Tomos Williams (Drama), Niamh Cole (Ffrangeg) Robin Powell Davies (Mathemateg) Oliver Bradley-Hughes (Saesneg), Iolo James (Mentor Academaidd) ac Alys Roberts, Mari Roberts a Llinos Huges (Cymorthyddion Dosbarth). Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.
Llongyfarchiadau i Erin Baxter, Gwenllian Emmet, Gwion Williams a Jake Chow
ar ganlyniad gwych yn y cwis her Gwyddoaru



Dyma'r tîm Prif Ddisgyblion ar gyfer 2021/22. Llongyfarchiadau! Julia a Mali yw'r Prif Ddisgyblion ac Ellis a Taliesin yw'r Dirprwyon

Meddygol Prifysgol Caerdydd cyn yr Haf. Mae dod yn 3ydd trwy Gymru yn dyst i'w gallu a'u gwaith caled. Da iawn nhw!

Llongyfarchiadau i Toby Devenport, Ellis Jones, Ela Watkins ac Efa Fitzgerald o flwyddyn 13 ar gael eu henwebu fel Pencampwyr Llefaredd - yn dilyn gweithdy talkthetalkUK yn ddiweddar. Da iawn chi

Mae'n elusen sydd yn creu wigiau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n colli eu gwallt oherwydd cancr ac afiechydon eraill. Fe drefnwyd gweithgareddau eraill ar y diwrnod hefyd ac fe lwyddwyd i godi £997.58 i'r elusen yma.

Llongyfarchiadau i Bethan Thomas, Erin Baxter a Lily Mair Roberts ar ennill yn Eisteddfod Llansannan nol ym Mis Gorffennaf yn yr adran Llen bl 7 - 11

Daeth Bethan yn gyntaf gan ennill gwobr arbennig yn yr adran Llen a Barddoniaeth oedran Uwchradd am y gwaith gorau yn yr adran yma

Profiad anhygoel i griw o fl.9. Cawsant y cyfle cyn yr haf i holi cyn ddisgyblion sydd yn serennu yn y 'West End' Diolch am y cyfle! Cawsant holi Celyn Llwyd Cartwright, Steffan_Hughes, Mared Williams a Jade Davies ac



Ar Orffennaf 12fed fe dorodd Tegan Coles 8M ei gwallt ar gyfer Little Princess Trust. https://www.littleprincesses.org.uk


mae ei weld bellach ar ClwydTiFi ar y wê. Ewch draw i'w gweld



CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg yn y swyddfa neu gartref.

Glyn Evans Autoclinic
Atgyweirio Ceir
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

# O Sgwâr y Goron i Sgwâr Trafalgar

Collais yr Haf yn Ninbych eleni, gwaetha'r modd. Bum i'n gweithio yn y Theatr Genedlaethol ar y South Bank yn Llundain. Cyfle annisgwyl, cynhyrfus. Yr amseru oedd yn anffodus, rhwng argyfwng y Covid a'r tywydd. Do, fe gawsoch chi gwell tywydd o lawer yma na chefais i yn Llundain. Gwahanol iawn i'r arfer.

Dipyn o sioc, rhaid dweud, oedd cael gwahoddiad i ymuno â chast "Under Milk Wood" yn y National gyda Michael Sheen a Sian Phillips ac eraill. Yn ystod fy ngyrfa rwyf wedi chwarae sawl rhan yn y ddrama hon ond erbyn hyn, yn fy oed i, dim ond un rhan sydd addas, sef yr hen wraig, Mary Anne The Sailors. Ond doedd dim angen poeni. Y tro hwn, cartref gofal i'r henoed ond lleoliad y chwarae, felly roedd pob aelod o'r cast ar wahan i'r gofalwyr yn y cartref, yn hen. Doedd eich oed go iawn ddim yn cyfrif yn y cynhyrchiad yma. Felly yn ogystal a chwarae rhan Mrs Roberts, un o breselwyr y cartref, roedd gen i chew cymeriad arall, yn cynnwys plenty, merch ifanc dwy ar bymtheg a buwch. Ie, buwch o'r enw Daisy. Uchafbwynt fy ngyrfa yn sicr. Fy mhryder mwyad yn y dyddiadur cynnar oedd, nid y gwaith, ond mynd ar goll mewn adeilad mor anferthol.

Yn ystod y cyfnod ymarfer a pherfformio roedd yn ofynnol gadw at rheolau llym iawn oherwydd y pandemig. Dim cymdeithasu, gwneud prawf Covid personol ddwywaith yr wythnos o gwisgo mwgwd bob amser, ond pam yn action. Roedd ganddo ni swyddog Covid i'n cadw mewn trefn a'n gwarchod. Byddai hi'n cadw mewn trefn a'n gwarchod. Byddai hi'n defnyddio ffon fesur bren dwy fedr o hyd i sicrhau ein bod yn ufuddhau i'r canllawiau diogelwch. Roedd rhaid cadw'r pellter angenrheidiol rhwng actorion hyd yn oed yn ystod perfformiad ar y llwyfan. Profiad gwahanol iawn i'r arfer. Roedd pawb yn fodlon cydymffurfio oherwydd byddai un prawf positif wedi dod a'r cwbl i ben a doedd neb eisiau bod yn gyfrifol am gau'r sioe.

Mi wnes i fwynhau fy nghyfnod yn y brifddinas. Popeth mor wahanol if y mywyd bob dydd adre. Fe drefnwyd 'apartment' hwylus i mi rhyw ganllath o sgwar Trafalgar. Roeddwn felly yn gallu cerdded nôl a mlân i'r gwaith bob dydd, ac yn amcangyfrif mod i'n gweld mwy o bobl mewn un siwrnai, yn enwedig ar benwythnos, na faswn i'n gweld mewn chew mis yn Ninbych.

Roedd nifer ohonom yn y cast yn siarad Cymraeg, felly peth cyffredin oedd clywed iaith y Nefoedd yn y National am dri mis. Rwy'n falch dweud i'r ddrama gael derbyniad ardderchog. Profiad dymunol felly i nifer o gyfeillion annwyl a deithiodd i Lundain i weld y sioe ac aros am ychydig o nosweithiau if od yn gwmni i mi. Roeddwn i yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Mae'n braf iawn bod adref. Mae'r ardd fel anialwch ar ôl misoedd o esgeulustod ond fe caf drefn arno ar ôl oriau o waith caled. Pris bach i dalu am profiad unigryw a bythgofiadwy.

Gaynor Morgan Rees

lluniau ar dudalen 23

cyngor sir ddinbych

Cynghorydd

Mark John Young



Dinbych Isaf - Annibynnol

Symudol: 07825 912554

www.sirddinbych.gov.uk

E:mark.young@sirddinbych.gov.uk

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 9 | | 4 | | | 7 | | |
| 8 | | | 5 | 7 | | | | |
| | | 2 | | | 9 | | 6 | 8 |
| 4 | | 7 | | | | | 3 | 5 |
| | | 3 | | 4 | | 8 | | |
| 2 | 5 | | | | | 1 | | 7 |
| 3 | 6 | | 9 | | | 2 | | |
| | | | | 5 | 4 | | | 6 |
| | | 8 | | | 2 | | 1 | |

## Difyrion Digidol

Wrth fynd ar y We am y tro cyntaf, mae'n bwysig i wybod y gwahaniaeth rhwng porwr (internet browser) a safle chwilio (search engine). Mae'n hawdd i lawer ddrysu rhwng y ddau beth. Y porwr fel arfer ydi'r feddalwedd sydd yn eich galluogi i syrffio'r We, ac yn syml, mae gan bob porwr adnodd i deipio cyfeiriad gwefannau a nodi cyfeiriadau gwefan sydd fel arfer ar y top megis https://..... Mae gan gwmni Google ei porwr ei hun sef Google Chrome, mae yna borwyr eraill hefyd Mozilla Firefox, Safari ar gyfer defnyddwyr Apple, gyda Microsoft Edge dan gwmni Microsoft. Mae pob porwr fwy neu lai yn cynnig yr un math o wasanaeth, ond os ydych yn dymuno osgoi Google ar y We, ac i ni siaradwyr Cymraeg sydd eisiau'r profiad o fynd ar y We i fod mor Gymraeg a phosib, mae Mozilla Firefox yn rhoi'r cynnig i chigael rhan fwyaf o'r rhyngwyneb yn Gymraeg o fewn y porwr. Nid yw Google Chrome ar y llaw arall yn cynnig hynny, yr unig adnodd sydd gan Google yn ymwneud â'r Gymraeg yw'r gwiriwr sillafu (spellchecker). . Felly, o ran y porwr, Firefox ydi'r un gorau o bersbectif hygyrchedd yn y Gymraeg. Gellir ei lwytho drwy'r ddolen ganlynol: https://www.mozilla.org/en-GB/firefox/new/ Er mwyn newid gosodiadau iaith, gellir canfod y cyfarwyddiadau yma https://support.mozilla.org/en-US/kb/use-firefox-another-language Os nad ydych eisiau treulio amser yn teipio'r cyfeiriad hir yma yn y blwch, gallwch chwilio amdano trwy fynd ar unrhyw safle chwilio. I ddarllen mwy am Mozilla ewch i https://www.mozilla.org/en-GB/

I lawer ac mae hyn yn gwbl ddealladwy i feddwl mai'r We yw Google a Google yw'r We. Er mor fawr yw Google, ac er mor gynhwysfawr yw'r adnodd chwilio arni, mae'n bwysig nodi fod yna wefannau chwilio eraill ar gael. Daeth Google i amlygrwydd yn gyntaf fel safle chwilio boblogaidd o'r flwyddyn 2005 ymlaen ble ffrwydodd ei hapel. Erbyn hyn, mae Google yn llawer mwy ac mi ai ati i drafod hynny wedyn.

Dau chwiliwr arall sy'n dod i'r meddwl, yw DuckDuckGo (https://duckduckgo.com/?va=b&t=hr) sy'n ymfalchïo yn y modd y maent yn parchu preifatrwydd y defnyddiwr. Mae llawer o wefannau chwilio yn enwedig Google yn cadw golwg ar eich symudiadau ar y We, megis pa wefannau yr ydych yn eu hymweld ac ati, dyna pam fod hysbysebion yn codi yn aml oherwydd eu bod yn tracio arferion defnyddwyr ar y We trwy'r cwcis sy'n cofnodi traffig i wefannau – dwi'n siwr eich bod wedi gweld hysbysebiadau o gwmnïau gwahanol yn ymddangos ar ochr eich chwiliwr yn cynnwys anrhegion 'Dolig yr ydych wedi chwilio amdanynt eisoes! Gyda DuckDuckGo, nid ydynt yn gwneud hynny o gwbl ac mae posib mynd ar y We yn gyfrinachol heb adael ôl traed o gwbl.

Mae gwefan chwilio Ecosia yn un dda sy'n hybu'r amgylchedd https://www.ecosia.org/?c=enMaent yn ymfalchïo fod pob chwiliad ar Ecosia yn cael gwared â 1kg of garbon deuocsid o'r awyr.

Safle chwilio poblogaidd arall yw Microsoft Bing, sydd eto dan adain Microsoft – mae'n anodd osgoi y cwmnaïu mawr ar y We ond mae'n bosib! Cofiwch hefyd fod Gwgl.com ar gael sy'n wasanaeth chwilio Cymraeg ar gyfer safleoedd Cymraeg ei hiaith.

Mae cwmni Google er enghraifft yn ceisio ac yn llwyddo i raddau helaeth i gornelu'r farchnad yn llwyr trwy gynnig amryw o wasanaethau - y safle chwilio, y porwr sef Chrome ac yn ogystal y gwasanaeth ebost Gmail, (G docs) dogfennau, gwasanaethau apiau,- Playstore, gwasanaeth fideo YouTube, Google Images – ar gyfer lluniau ayyb mae'r gwasanaethau sydd ar gael yn lluosog ac yn eang ag yn ddibendraw.

Mae Microsoft yn anelu i wneud yr un peth, gyda Bing, Microsoft Word ar y We a gwasanaeth ebost Outlook. Mae'n rhaid pwysleisio fod y gwasanaethau hyn i gyd yn ddefnyddiol ac yn rhad ac am ddim. Ond cofiwch fod yna fyd y tu hwnt i'r rhain.

Deian ap Rhisiart

Os yw eich mudiad angen cymorth i ddeall y We yn well, yr ydym yn cynnig llu o hyfforddiant am ddim i'ch rhoi ar ben ffordd, cysylltwch gyda ni Cymunedau.Digidol@wales.coopam ragor fanylion.

## Gwefan Y Bigwn

Erbyn hyn mae gwefan newydd y Bigwn gyda ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Mae hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â'r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.

I gael mynediad i'r wefan ewch i www.ybigwn.cymru

Jones & Graham
45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH
CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES
Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim
Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg
01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk

PyBJ

GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf
Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau
Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion
Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332
e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk

Cymdeithas Edward Llwyd
Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

# Taith Maes Gellinudd

Mae aelodau Cymdeithas Edward Llwyd newydd gael eu taith gyntaf ar ôl cael mis o egwyl dros yr haf. Wel ia, mae hyd yn oed ein haelodau brwd yn cael sbel o ymlacio dros yr haf! Ond mae'n braf cael ein sgidiau cerdded yn ôl ar ein traed unwaith eto.

Roedd daith yn ardal Llangoed, Ynys Môn, yn Llanarmon yn Iâl ac yn ardal Gellinudd ger Pontardawe yma yn y De. Roedd hi'n ddiwrnod sych a braf, yn gynnes ond nid yn grasboeth ac ar ôl y dringo serth o'r pentref roedd golygfeydd godidog i ni fwynhau, a chael ein gwynt yn ôl ar yr un pryd. Roedd ein harweinydd Liz Jones wedi byw yn yr ardal trwy gydol ei hoes ac yn falch iawn i rannu ei gwybodaeth efo ni. Gwaith glo oedd fan hyn wrth gwrs ac fel bob hen ardal ddiwydiannol mae'n baradwys i gerddwyr a seiclwyr efo llawer o lwybrau yn dilyn rheilffyrdd a thramffyrdd ddoe.

Roedd dwsin ohonom yn cerdded ac mewn hanner awr roedden ni wedi cwblhau'r her gyntaf, sef plodio fyny llwybr igam-ogam er mwyn cyrraedd tir uchel. Dilyn llwybr tu cefn i dai efo gerddi mawr a diolch yn dawel nad ni oedd yn gorfod cadw nhw'n daclus. Cyrraedd Eglwys Cilybebyll ac roedd hi'n amser i ni gael ein picnic a dyna ni yn eistedd yn gyfforddus a pharchus ar wal y fynwent. Lle braidd yn ddiarffordd a dim ond sŵn yr adar yn canu oedd yn torri ar draws ein clebran. Roedd yr haul yn tywynnu a'r byd yn braf. Ond roedden i'n bell o'n ceir, felly ymlaen â ni ar lwybrau llawn mwyar duon. Dim amser i'w hel nhw ond mi wnaeth ddigon cael eu bwyta i roi lliw ar ein tafodau. I lawr ar lwybrau serth i ddyfnderoedd y coed ac ambell wyriad i ni weld olion gwaith a chwt ble roedd y powdr a'r tanwyr yn cael eu cadw. Roedd y cwt wedi cael ei adeiladu fel os oedd ffrwydrad roedd popeth yn mynd trwy'r to ac nid trwy'r waliau.

Roedd inclein hir a serth yn mynd â ni allan o'r coed felly pennau i lawr ac un coes o flaen y llall tan i ni gyrraedd beth oedden ni'n meddwl oedd y pen. Ond wrth gwrs roedd pen arall. Dilyn lôn heibio hen dai teras a phob un efo hen greiriau o bell, bell yn ôl. Roedd fel bod y trigolion mewn cystadleuaeth.

Cyn bo hir roedden ni'n cerdded i lawr yr un llwybrau roedden ni wedi dringo yn y bore a dyna ni yn ôl wrth y ceir ac yn rhoi diolch i Liz am drefnu'r daith a'n tywys ni. A dyna beth sydd yn braf am y Gymdeithas, dyn ni'n dod i adnabod ardaloedd o Gymru bydden ni ddim wedi gweld a chael hanes newydd i'n haddysgu ni. Pishyn wrth bishyn mae'r darnau o'r jig-so yn dod at ei gilydd a dyn ni'n dysgu mwy ond na fydden ni byth yn dysgu'r cwbl lot.

Dewch efo ni, mae ein rhaglen o deithiau ar ein gwefan www.cymdeithasedwardllwyd.cymru ac edrychwch o dan 'Gweithgareddau'

/gwasg.com PRINT
ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO
Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 | info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint

Garej Ffowndri
Am wasanaeth cyflawn i'ch modur


01745 812482

## Atebion Gorffennaf 2021

**Ar Draws :**
8. Merched y
9. Isobar
10. Culfor
11. Ariannin
12. Addunedau
14. Eferwi
15. Arallgyfeiriad
19. Cynnil
21. Dominyddu
24. Dynolryw
26. Carfan
27. Sinema
28. Weithiau

**I Lawr :**
1. Amgueddfa
2. Tryfan
3. Beddrod
4. Wyna
5. Dirifedi
6. Rownderi
7. Caribw
13. Unfed
16. Anniogel
17. Galarnad
18. Dyddiadur
20. Ynysig
22. Mwclis
23. Nyrsio
25. Wawr

## CROESAIR HYDREF 2021




**Ar Draws :**
1. Cwm cul a dwfn
5. Clodwiw
9. Lloches
10. Y gellir ei adennill
11. Cyrch ffyrnig
12. Sawr neu ddrewdod
13. Blys
15. Un sy'n astudio creigiau
18. Dulliau ac arferion gweithredu
19. Un efaill direidus gyda phwerau hud
21. Sarff 23. Rhwng yr 11fed a'r 13ydd
25. Crynhoi unwaith eto
26. Cerfiwr
27. Heb fod yn sefydlog
28. Person aeddfed

**I Lawr :**
1. Yr hyn a grëir mewn diwydiant er mwyn ei werthu
2. ... ...... Cymru, mudiad ieuenctid (3,6)
3. Lle bu brwydr enwog yn Nhexas yn 1836
4. Nodedig
5. Alban ....., diwrnod pan fo dydd a nos yr un hyd
6. Y wiethred o ysbeilio ar y môr (3-6)
7. Tynnu llaeth
8. Un sy'n mewnforio nwyddau yn anghyfreithlon
14. Llinach frenhinol, â gwreiddiau ym Môn
16. Diystyru
17. Gweithred heb orfodaeth
18. Sgôr mewn tennis yn dilyn 40-40 20. "... .. .. hen gwestiynau", cân ar albwm gwerin o'r 70au (3,2,2)
22. Crefydd
23. Pwynt ..... sy'n gwahanu rhif cyfan oddi wrth ffracsiwn
24. Ysbaid fer o amser

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor


CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

J.H.Jones & Co
Cigydd Teuluol
01745 81 2132
92 Stryd y Dyffryn, Dinbych LL16 3BW

# DIWRNOD CENEDLAETHOL GRWPIAU DARLLEN

**Cawsom gyfarfod rhithiol o 'Sgwrs a Sangria' sef grwp darllen Cymraeg Llyfrgell Dinbych ar y diwrnod yma. Os hoffech ymuno â'r clwb darllen cofiwch gysylltu â ni. Gallwn eich cefnogi gyda deunydd darllen os oes diddordeb mewn sefydlu cylch darllen yn y gymuned.**

**'Roedd tri llyfr dan sylw a dyma ychydig o sylwadau gafwyd gan ein darllenwyr:**




**Twll Bach yn y Niwl gan Llio Maddocks**


**dyma chwa o awyr iach - braf darllen llyfr oedd â rhyw ffresni amdano, wedi mwynhau yn arw**

**llyfr oedd yn hawdd i'w ddarllen, y stori yn llifo a'r diwedd yn obeithiol**

**mae angen mwy o lyfrau fel hyn i roi llais newydd i brofiadau fel y cafodd Lowri'r prif gymeriad**

**mai'n braf cael nofel i'w hargymell i bobol ifanc yn eu hugeiniau**

**delio yn gelfydd gyda'r themâu o gydsynio ac effeithiau niweidiol alcohol - bendant yn ennyn trafodaeth!**





**Rhedeg i Parys gan Llwyd Owen**

**er nad yw'r nofel yma'n gredadwy bob amser 'roedd yn stori dda a dawn ysgrifennu da yma**

**'roedd y bennod gyntaf yn gafael ag 'roedd yn gwneud imi fod isio darllen ymlaen**

**un o'r llyfrau gorau dwi wedi darllen erstalwm iawn, stori afaelgar yn symud yn sydyn ac yn cynnal diddordeb**




**Rhywle fel Hyn gan Dafydd Iwan**

**byddai bobol o gyfnod Dafydd Iwan yn gwerthfawrogi'r llyfr yn fwy na wnes i o bosib**

**19 o ganeuon yn cael sylw yn y llyfr, rhai yn ddieithr iawn**

**'roedd y llyfr yn dda mewn rhannau ond yn well yn yr ail hanner**

**defnydd o iaith raenus ac wedi ei ysgrifennu yn dda**

# Llyfrgell Dinbych - Oriau agor cyfredol

**Dydd Llun: 9.30 - 1pm, 2pm - 6pm**

**Dydd Mawrth: 9.30am - 1pm, 2pm - 5pm**

**Dydd Mercher: 9.30am - 1pm, 2pm - 5pm**

**Dydd Iau: ar gau**

**Dydd Gwener: 9.30am - 1pm, 2pm - 5pm**

**Dydd Sadwrn: 9.30am - 12.30pm**

**Ffôn: 01745 816313 e-bôst: llyfrgell.dinbych@sirddinbych.gov.uk**

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377




**Cyflwyna dy hun a dy ddiddordeb i ddarllenwyr y Bigwn?**

Fy enw yw **Osian Hedd Williams o Ddinbych.**

**Sut dechreuodd dy ddiddordeb mewn torri coed?**
Dechreuodd fy niddordeb mewn torri coed ryw chwech i saith mlynedd yn ôl. Roeddwn yn nabod cwpwl o hogia rygbi oedd yn torri coed, sef Simon Bond a Dafydd Jones, aelodau o glwb Bwyellwyr Clwyd. Sbardunodd fy niddordeb ar ôl darllen paragraff ym mhapur Y Daily Post ynglŷn â llwyddiant Elgan Pugh, aelod arall o'r clwb ag pencampwr 7 gwaith yn y Bencampwriaeth Stihl Timbersports Prydeinig.
Mi wnaeth Simon sôn un noson fod nhw yn ymarfer am 6 o'r gloch y diwrnod wedyn. Mi es i fyny i Llannefydd i fferm Bryn Isa ag cyfarfod Alun Jones a'i wraig Eirian.
Gyda hyfforddiant gan Alun, Simon, Elgan, Dafydd ag hefyd aelod arall o'r clwb Simon Belfield, dechreuais ymarfer y dechneg Underhand. Lle mae rhaid sefyll ar dop logyn a thorri'r hanner cyntaf, ac yna troi rownd ag torri'r ail ochor. Roeddwn wedi ffeindio beth oeddwn yn mwynhau ei wneud. Fel y mae'r dywediad yn y Saesneg yn ei ddweud, 'the rest is history'.


**Sut brofiad oedd hi gystadlu yng nghystadleuaeth Stihl?**
Roedd yn brofiad gwych i fod yn cystadlu yn y bencampwriaeth. Fyswn byth wedi credu un diwrnod buaswn yn cystadlu yn y Pro's ar ôl cystadlu yng nghystadleuaeth 'Yr newcomers challenge' nôl yn 2018 ag 2019. Ond roeddwn yn gwybod beth i ddisgwyl o baratoi'r coed, a hefyd i gael fy hun yn barod yn feddyliol ac yn gorfforol.
O fis Ebrill, yn arwain fyny i'r Bencampwriaeth roeddwn yn mynd i ganolfan hyfforddi lawr yng nghanolbarth Cymru bob tair wythnos, i gael fy hyfforddi gan Andrew Evans o Fethesda ag Rob Owens o Gelli Gandryll.




**Beth oedd yr awyrgylch yn debyg i yn y gystadleuaeth?**
Doedd yr awyrgylch ddim cystal heb y gwylwyr oedd fod yno, o ganlyniad i'r pandemig . Ond roedd teulu a ffrindiau yn cael dod.
I gymharu â phryd roeddwn yn cystadlu yn y newcomers nôl yn 2018 ag 2019, roeddwn yn cystadlu yn y sioe countryfile live yn Blenheim Palace ag tro mha yn y Telford International Arena.
Roedd dal llawer o gefnogaeth yno, gyda chriwiau o deuluoedd a ffrindiau yna i neud llawer o awyrgylch.

**Wyt ti yn bwriadu cystadlu mewn unrhyw gystadleuaeth yn y dyfodol?**

Yndw. Mae gennyf gystadleuaeth leol mis nesaf ym Methesda, yn cael ei drefnu gan Bill Huaki.
Dyna fo i ddweud y gwir tan y tymor newydd y flwyddyn nesaf. Fyddai'n dal i ymarfer unwaith yr wythnos yn torri coed.
Gobeithio mi wneith clwb Bwyellwyr Clwyd ail ddechrau a chaf gystadlu yn fwy amlach yn y sioeau'r flwyddyn nesaf, a chaf unwaith eto diddori'r dorf.
Ond tan adeg hynny, nôl ati i gadw'n ffit a chryfhau fy hun at y gystadleuaeth nesaf. Mi fyddaf yn dychwelyd yn ôl i chwarae rygbi i Glwb Rygbi Dinbych, ond am ba mor hir, dwi ddim yn siŵr iawn.



# Tymor Hunllefus i'r Clwb Criced

Bu hi'n dalcen caled yn hanes clwb criced y dref wrth i'r ddau dîm hynaf orffen ar waelod eu cynghreiriau a'r canlyniad ydyw wynebu tymor mewn adrannau is yn 2022.

Nid aeth popeth o blaid yr un o'r ddau dîm o'r cychwyn cyntaf y tymor hwn. Cyn i'r un gêm gael ei chwarae cafodd dau o'r hogia' eu denu i chwarae ar ran Llaneurgain mewn cynghrair yng Ngogledd Orllewin Lloegr.

O fewn y mis cyntaf trechodd y tywydd ymdrechion y clwb i chwarae gemau ar dri Sadwrn tra bod sawl clwb arall wedi gallu cynnal eu gemau nhw. Yn wir, collwyd gemau i'r elfennau ar bum Sadwrn yn ystod yr haf.

Yna derbyniodd un o'r chwaraewyr anaf difrifol a olygai na allai chwarae o gwbl y tymor hwn.

Yn goroni ar y cyfan bu'n rhaid i un chwaraewr ddod oddi ar y maes yn ystod un gêm oherwydd pryder iddo ddod i gysylltiad ag un yn dioddef o'r Cofid. Yn ffodus, roedd o'n holliach ond ni chafodd gymryd rhan yn y gêm honno.

O ganlyniad i'r holl amgylchiadau hyn collwyd hyder ac fel y dywedodd un aelod o'r clwb," Fe ddaethom ni'n dîm hawdd i'w guro."

Adlewyrchwyd y diffyg hyder hwn yn yr ystadegau. Wnaeth yr un batiwr sgorio mwy na 400 o rediadau i'r un o'r ddau dîm. Yn wir, dim ond dau wnaeth sgorio mwy na 300. Wnaeth yr un bowliwr gymryd mwy nag ugain o wicedi.

Efallai bydd gostwng o'r Uwchgynghrair i'r Adran Gyntaf yn fodd i adfer hyder y tîm cyntaf, a chaiff aelodau ifainc yr ail dîm gyfle i flodeuo yn y Drydedd Adran.

Tymor i'w anghofio yn sicr fu 2021 iddyn nhw oll.

Plaid Cymru | Party of Wales

Llyr Gruffydd AC



Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:

Llyr Gruffydd AC
Canolfan Fusnes Birch House
Hen Lôn Parcwr
Rhuthun
LL15 1HN
01824 703593
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru

Yn gweithio dros y gogledd

@LlyrGruffydd

www.llyrgruffydd.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

TE YN Y GRUG
Ty Te a Delicatessen
Tea House & Delicatessen




# Cacen Banana a Charmel



**Cynhwysion**

3 banana
227g o flawd codi
227g o siwgr man
1 llwy de o Bicarbonated soda
4 wŷ
5 llwy fwrdd o lefrith
1 llwy de o fanila
227g o fargarin
500g o siwgr eisin
3 llwy fwrdd o jar carmel
Llefrith
62g o menyn di hallt

**Dull**

1. Rhowch y menyn a'r siwgr yn y fowlen a'i gymygsu gyda chwist trydan.
2. Ychwanegwch yr wyau un ar y tro.
3. Stwnsiwch y banana mewn bowlen gyda fforc a'i gymysgu yn ofalus.
4. Ychwanegwch y blawd, bicarb, fanila a llefrith i'r gymysgedd gwlyb.
5. Cymysgwch y cyfan yn ofalus.
6. Arllwswch y gymysgedd i'r tiniau pobi.
7. Coginiwch y cyfan am 20 munud a'r dymherdd o 160 c.
8. Er mwyn gwneud y'r eisin bydd rhaid cymysgu y menyn sydd bellach i dymheredd ystafell am 5 munud nes ei fod wedi dwblu mewn maint.
9. Ychwanegwch yr siwgr eisin yn ofalus ac yna y carmel a'r llefrith os bydd y gymysgedd yn rhu drwchus.
10. Gallwch addurno y gacen fel y mynwch.

Emyr Evans a'i Gwmni Cyf

Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy, Dinbych 01745 812333



Stad Ddiwydiannol Gaerwen 01248 421900



Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk

JCB McHale Massey Ferguson Fendt Pottinger

Cynhaliwyd gên gyntaf CPD Dinbych ar eu cae newydd sbon gwerth £200,000 ar ddydd Gwener, Medi'r 3ydd o flaen torf o 600 o bobl, ac yn fyw ar dudalennau Facebook a YouTube 'S4C Sgorio' wrth iddyn nhw wynebu tîm Caernarfon o Uwch Gynghrair Cymru.

Dywedodd Cadeirydd y Clwb a Chyfarwyddwr y busnes lleol Lock Stock Self Storage, "'Da ni wrth ein boddau. Mae Caernarfon yn glwb poblogaidd ac mae eu croesawu nhw yma o dan y llif oleuadau, ar y teledu, fel ein gêm gyntaf ni yn anhygoel. Mae hi wedi bod yn chwe mis prysur ar ben deunaw mis o waith cynllunio i ni gyrraedd lle ydan ni heddiw gyda'r cae yn edrych mewn cyflwr gwych"

Mae Central Park wedi wynebu problemau draenio a llifogydd ers blynyddoedd gyda sawl gêm wedi'i gohirio oherwydd hynny. Mae'r cae newydd yn un o sawl datblygiad diweddar yn Central Park i wella'r cyfleusterau yno gan gynnwys y stand 475 sedd, a thŷ clwb newydd, y goleuadau llif a ffens perimedr diogel.

Daw'r gwelliannau fel rhan o gynllun hirdymor i wella'r cyfleusterau er mwyn galluogi Dinbych, sydd ar hyn o bryd yn y drydedd haen o bêl-droed Cymru sef Cynghrair Ardal Gogledd Orllewin Lock Stock, er mwyn iddynt allu chwarae yn yr haen uchaf, sef Uwch Gynghrair Cymru.

Cwmni lleol 360 Ground Care o Lanelwy, a redwyd gan gyn chwaraewr y clwb, Miles Todd, sydd wedi bod yn gyfrifol am ail-osod y cae sy'n cynnwys system ddraenio newydd sbon ar hyd y cae i gyd. Mae yna hefyd 16 taenellwr dŵr ar hyd y cae sy'n sicrhau na fydd y cae byth yn sych.

Daeth y rhan helaeth o arian yr £200,000 o grantiau gan Gronfa Fferm Wynt Coedwig Clocaenog, Chwaraeon Cymru a Chronfa Gymudol Sir Ddinbych. Cafwyd cefnogaeth leol gyda nawdd gan dros 60 o gwmnïau a busnesau lleol gan gynnwys ein prif noddwyr, Lock Stock. Ychwanegodd Shon Powell, "Mae angen diolch o waelod calon i bawb sydd wedi ein noddi ni. Hebddyn nhw, ni fuasai'r prosiect yma wedi llwyddo."

Dywedodd Miles Todd, "Roedd y system ddraenio yma yn hynod o hen ffasiwn. Mae amseroedd wedi newid ers iddo gael ei osod a dulliau hefyd wedi newid. Roedd rhaid tynnu'r hen bridd oddi yno a'i amnewid gyda 700 tunnell o dywod er mwyn helpu'r draeniad ar y wyneb."

Dywedodd Shon Powell: "Mae gennym ni bellach gae fydd yn gallu cael ei chwarae arno dwy i dair gwaith yr wythnos drwy gydol y tymor pan oeddem ni weithiau'n ei chael hi'n anodd i chwarae un gêm y mis. Mae'n bwysig fod gennym ni'r cyfleusterau gorau gan fod yna gymaint o dimoedd yn rhan o'r clwb bellach, fel y Tîm Merched, yr adran anabl ac adran iau sy'n cynnwys dros ddeg tîm o'r oedran o 6 i 16. Mae dros 280 o bobl yn chwarae pêl-droed yma'n wythnosol, dros 40 o hyfforddwyr a 25 o wirfoddolwyr."

"Roedd hi'n braf hefyd cael cefnogi cwmnïau lleol, fel Dragon Drilling, Alan Ramsbottom Landscaping a C J Electrics. Diolch o waelod calon i bawb."

**Canlyniadau'r Tîm 1af:**

2il Rownd Cwpan JD Cymru - CPD Dinbych v CPD Caernarfon 4

Gemau Cynghrair: 5 buddugoliaeth - Llanelwy (3-0), Llanrwst (2-1) , Brickfield (2-1) Blaenau Amateurs (7-0) a Rhostyllen (2-0). Gêm gyfartal - Mold Alexandra. (1-1)

**Canlyniadau'r Ail Dîm**

Gemau cyfartal – yn erbyn Y Bala a Rhuthun. Colli – Treffynnon (3-2). Buddugoliaethau – Llanelwy (3-0), Llandudno (3-2)

**Tîm Dan 18**


Newidiwyd Tîm 'Denbigh Development' yn Dîm Dan 18 oed. Rheolwr newydd y tîm yw Ethan Jones ac yn ymuno ag ef mae cyn hyfforddwr tîm ieuenctid Henllan sef Alwyn Jones. Dydi'r tymor heb ddechrau i'r tîm eto.

**Merched Dinbych**

Apwyntiwyd Ellen Lawson yn rheolwr ar y Tîm, gyda'i chynorthwywyr Elen James-Owen a Carla Rizzi. Bydd y gynghrair, sef Cynghrair Adran Genero yn dechrau iddyn nhw yng nghanol mis Medi.

Lluniau ar dudalen gefn



## Ethol Maer a Maeres i Dref Dinbych 2021-2022

**Seremoni tra wahanol oedd yr un i urddo Maer a Maeres y dre eleni. Fel arfer mae'r seremoni yn digwydd o flaen cynulleidfa yn Neuadd y Dref ond nid y tro hwn.**

**Yn hytrach ymgynnill yng Ngerddi Evan Pierce yn gynnar un bore a waneth pawb oedd yn cymryd rhan er mwyn medru ffilmio'r seremoni. Dim cynrychiolwyr o gymdeithasau lleol, dim meiri trefi cyfagos a dim teulu a ffrindiau yn bresennol. Yn lle hynny dim ond adar y nen a sŵn y traffic ar Stryd y Dyffryn i gymeradwyo'r digwyddiad.**

**Ac yna yn hwyrach yn yr wythnos, am 6 o'r gloch ar Nos Wener y 7fed o Fai cafodd y Cynghorydd Rhys Thomas ei ethol yn Faer Dinbych a'i wraig Lynn ei hethol yn Faeres dros y rhyngrwyd. Y gynulleidfa tro yma oedd cynghorwyr a meiri cyfagos yn ymuno'n rhuthiol i'r cyfarfod. Dechreuodd y cyfarfod gyda gweddi gan Gaplan y Maer y Parchedig Graham Floyd a chyda help y ffilmio boreol yn Ngherddi Evan Pierce . Medrodd y cyfarfod ddilyn yn rhyfeddol y patrwm arferol.**

**Tydi'n ffodus fod gennym adnoddau erbyn hyn i fedru cynnal hyd yn oed seromoni ethol Maer a Maeres yn y cyfnod clo! Diolch i Jennie Barlow clerc y Dre a Carys Jones ei chynorthwyd am feddwl tu allan i'r bocs ac am eu gwaith caled i alluogi y cyfarfod blynyddol gael ei gynnal dan yr amodau heriol sydd yn bodoli ar hyn o bryd.**






## O Sgwâr y Goron i Sgwâr Trafalgar



Michael Sheen a gaynor



Cast a chriw 'Under Milk Wood'



Gillian Elsa a Gaynor



Sian Phillips

## *Y BIGWN - YSGRIFENNYDD*

Rydym yn chwilio am Ysgrifennydd
cyn gynted â phosib.
Does dim gwaith golygu ynghlwm wrth y gwaith.
Cysyllter â: -
Bedwyr Griffiths 01745 814497ed321@btinternet.com
neu â:-
Stan Lyall 01745 813659stanmaberic@hotmail.com



Tîm Rheoli'r Merched – Ellen Lawson, Elen James-Owen a Carla Rizzi



Kristian Pierce yn dathlu ei gôl yn erbyn Llanrwst



Mark Roberts yn dathlu sgorio tair gôl yn erbyn Blaenau Amateurs




Paul Fleming a Jacob Barratt yn erbyn Caernarfon o flaen stand llawn.

Isod - Mascots y Tîm Cyntaf yn erbyn Caernarfon sef y Tîm Dan 9

